**Rhif:** **WG53958**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ynghylch dynodi'r Bont Droi yn Llandeilo yn Ddŵr Ymdrochi.

Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-365-8

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymatebion i'r Ymgynghoriad cyfeirnod WG53958:

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ynghylch cynnig i ddynodi'r Bont Droi yn Llandeilo yn Ddŵr Ymdrochi o dan Reoliadau Dŵr Ymdrochi 2013. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 2 Chwefror 2026 a 23 Chwefror 2026.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cefnogi'r cynnig i ddynodi'r Bont Droi yn Llandeilo ar gyfer tymor ymdrochi 2026 ac i ddarparu unrhyw dystiolaeth neu resymeg. Ystyrir y cynnig hwn o dan Reoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 gan fod y rheoliadau hyn mewn grym tan 31 Mawrth 2026.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad hwn ac yn egluro'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried. Nid yw'n gwneud sylwadau ar gyflwyniadau unigol.

## Cyd-destun dynodi dŵr ymdrochi

Diben y Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi yw diogelu iechyd y cyhoedd drwy fonitro a dosbarthu ansawdd dyfroedd ymdrochi. Caiff dyfroedd ymdrochi dynodedig eu monitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ystod pob tymor ymdrochi ar gyfer *Escherichia coli* ac *Enterococci'r coluddion*, dau facteria sy'n peri risg i iechyd pobl.

Ar ddiwedd pob tymor ymdrochi, caiff safleoedd eu dosbarthu yn ôl eu canlyniadau monitro fel rhagorol, da, digonol, neu wael. Drwy gydol y tymor, mae CNC yn cyhoeddi canlyniadau monitro ansawdd dyfroedd ymdrochi ar ei wefan. Mae hyn yn galluogi ymdrochwyr i ddeall ansawdd y dŵr y gallent ddod ar ei draws, gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch lle i nofio, a nodi ardaloedd lle mae angen gwella ansawdd y dŵr.

## Camau Gweithredu Angenrheidiol

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o’r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

Y Gangen Dŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: water@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y caiff y crynodeb hwn o'r ymatebion a holl ddogfennau'r ymgynghoriad eu cyhoeddi a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Dynodi Dyfroedd Ymdrochi 2026 | LLYW.CYMRU

## Cynnwys

**Cyflwyniad** .................... 4
**Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad:** .................... 4
Pont Droi Llandeilo .................... 5
Barn ar yr effaith ar y Gymraeg .................... 6
**Ymateb y Llywodraeth** .................... 6
Y Camau Nesaf .................... 6
Atodiad A - Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd: .................... 7

### Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ddynodi'r Bont Droi yn Llandeilo yn Ddŵr Ymdrochi. Mae hefyd yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf y bwriedir eu cymryd.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r dynodiad arfaethedig ac i roi tystiolaeth ategol.

### Crynodeb o'r Ymatebion i'r ymgynghoriad:

Cafwyd 62 o ymatebion i'r ymgynghoriad. O blith y rhain, daeth 57 i law drwy'r porth ar-lein a daeth 5 ymateb arall i law yn uniongyrchol drwy e-bost.

| **Ymatebwr** | **Nifer yr Ymatebion** |
|---|---|
| Unigolion | 57 |
| Rheoleiddwyr | 1 |
| Cwmnïau dŵr | 1 |
| Cyngor Tref/ Cynghorydd lleol/ Cyngor Cymuned | 1 |
| Cyrff Proffesiynol | |
| Clybiau a sefydliadau lleol sy'n defnyddio'r dyfroedd | 1 |
| Corff amgylcheddol anllywodraethol | 1 |
| **Cyfanswm** | **62** |

*Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau a ymatebodd yn Atodiad A

Nododd dadansoddiad thematig y themâu trosfwaol canlynol:

- Cefnogaeth gyhoeddus gref o blaid dynodi'r Bont Droi yn Llandeilo
- Caiff ei defnyddio'n helaeth ac yn dymhorol at ddibenion hamdden, a cheir tystiolaeth o ddefnydd parhaus dros sawl blwyddyn
- Manteision canfyddedig i iechyd y cyhoedd, diogelwch ac ansawdd dŵr, yn enwedig o ystyried y diffyg cyfleusterau lleol eraill

- Cefnogaeth o blaid monitro ansawdd y dŵr yn rheolaidd, gyda disgwyliadau y byddai dynodi yn gwella'r drefn oruchwylio
- Mynegwyd pryderon ynghylch mynediad, diogelwch a chyfyngiadau amgylcheddol, gan gynnwys perchnogaeth tir a dynodiadau safleoedd gwarchodedig
- Barn amrywiol ar niferoedd yr ymdrochwyr a thystiolaeth
- Barn gymysg ar gyfleusterau a threfniadau rheoli'r safle, gan gynnwys sbwriel, toiledau a chyfarpar achub bywyd
- Ni nodwyd unrhyw effeithiau arwyddocaol o ran y Gymraeg, ac roedd ffafriaeth glir at arwyddion dwyieithog

<u>Pont Droi Llandeilo</u>

Denodd yr ymgynghoriad nifer sylweddol o ymatebion, gyda'r mwyafrif yn mynegi cefnogaeth o blaid dynodi Pont Droi, Llandeilo yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor 2026. Disgrifiodd yr ymatebwyr y safle yn aml fel ardal ymdrochi a hamddena leol sefydledig, a ddefnyddir yn helaeth, yn enwedig yn ystod y misoedd cynhesach, gyda thystiolaeth o ddefnydd parhaus sy'n pontio cenedlaethau dros nifer o flynyddoedd. Roedd y gefnogaeth yn aml yn gysylltiedig â manteision disgwyliedig i iechyd y cyhoedd, diogelwch a llesiant, yn enwedig yng nghyd-destun diffyg cyfleusterau nofio lleol eraill. Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr fod dynodi'r safle yn cael ei ystyried yn bennaf fel ffordd o alluogi proses i fonitro ansawdd y dŵr yn rheolaidd, gwella gwybodaeth am ddiogelwch, a rhoi sicrwydd i'r rhai sydd eisoes yn defnyddio'r safle, yn hytrach na hyrwyddo mwy o ddefnydd ohono.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y data a gyflwynwyd ar nifer yr ymdrochwyr yn rhoi darlun cywir ar y cyfan o'r modd y mae'r safle'n cael ei ddefnyddio, gan nodi'n aml arsylwadau personol, gwybodaeth leol a thystiolaeth ffotograffig. Fodd bynnag, roedd lleiafrif yn cwestiynu a oedd y ffigurau'n adlewyrchu unigolion unigryw neu unigolion sy'n ymweld dro ar ôl tro, ac a oedd diwrnodau'r arolwg yn gwbl gynrychioladol o amodau nodweddiadol. Roedd y farn ar y cyfleusterau a threfniadau rheoli'r safle yn gymysg: er bod rhai ymatebwyr o'r farn bod cyfleusterau'r dref gyfagos yn ddigonol, mynegodd eraill bryderon ynghylch sbwriel, diffyg toiledau, absenoldeb offer achub bywyd a'r angen am drefniadau cliriach ar gyfer rheoli'r safle pe bai'r dynodiad yn mynd rhagddo.

Mynegwyd nifer o bryderon hefyd, yn enwedig gan dirfeddianwyr, cyrff cynrychioliadol ac ymgyngoreion statudol. Roedd y rhain yn cynnwys trefniadau mynediad ar draws tir preifat, tresmasu posibl, risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig â chyflwr afonydd, ymddygiad gwrthgymdeithasol, effeithiau ar weithrediadau ffermio a bioddiogelwch, yn ogystal â materion amgylcheddol sensitif o ystyried lleoliad y safle o fewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac Ardal Cadwraeth Arbennig. Tynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru sylw at yr angen am gydsyniadau priodol ac asesiad pellach i sicrhau na fyddai unrhyw effeithiau andwyol ar nodweddion gwarchodedig, a mynegodd Dŵr Cymru bryderon ynghylch hyfywedd, gan nodi bod gwaith modelu yn dangos y byddai'r safle'n debygol o gael ei ddosbarthu fel 'Gwael' pe bai'n cael ei ddynodi, gyda chwmpas cyfyngedig i wella drwy ymyriadau cwmni dŵr yn unig.

Materion cysylltiedig eraill

Ni chododd yr ymatebion unrhyw faterion newydd o sylwedd y tu hwnt i'r rhai a nodwyd eisoes mewn mannau eraill yn yr ymgynghoriad. Yn hytrach, ailadroddodd yr ymatebwyr themâu presennol i raddau helaeth, yn enwedig mewn perthynas â diogelwch, rheoli sbwriel, mynediad a diogelu'r amgylchedd. Nododd llawer o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw faterion ychwanegol i'w codi, ond gwnaeth eraill ddefnyddio'r adran hon i awgrymu mesurau ymarferol, i ofyn am eglurhad ynghylch y dull gweithredu, neu i gyflwyno sylwadau ar y cyd-destun polisi ehangach, yn hytrach nag i fynegi gwrthwynebiad i'r dynodiad arfaethedig.

Barn ar yr effaith ar y Gymraeg

Mae'r ymatebion yn awgrymu nad oes disgwyl i'r cynigion gael effaith andwyol ar y Gymraeg. Y farn gyffredinol oedd y byddai'r arferion dwyieithog presennol a'r patrymau defnydd cymunedol yn parhau, gyda rhai ymatebwyr yn nodi effeithiau niwtral neu ychydig o effeithiau cadarnhaol drwy fwy o ryngweithio cymdeithasol, cyhyd â bod arwyddion dwyieithog a chynhwysiant yn cael eu cynnal.

**Ymateb y Llywodraeth**

Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid dynodi Pont Droi Llandeilo yn cael ei wneud o dan y Rheoliadau presennol. Hynny yw, Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013, gan fod y rheoliadau hyn mewn grym tan 31 Mawrth 2026.

Wrth ystyried a ddylid dynodi dyfroedd ymdrochi, mae Rheoliadau Dyfroedd Ymdrochi 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru asesu a ddisgwylir nifer mawr o ymdrochwyr. Caiff yr asesiad hwn ei lywio gan dystiolaeth arolygon o ddefnydd cyfredol, safbwyntiau a ddarparwyd drwy ymgynghoriadau cyhoeddus, ynghyd ag ystyriaeth o batrymau defnydd hanesyddol, y seilwaith sydd ar gael, ac unrhyw fesurau a fwriadwyd i hyrwyddo ymdrochi. Mae pob safle arfaethedig wedi cael ei asesu yn ôl ei rinweddau ei hun yn unol â'r meini prawf hyn.

Cyfeiriodd rhai o'r ymatebwyr at faterion y tu allan i gwmpas y Rheoliadau, yn ymwneud â phryderon amgylcheddol ehangach, ansawdd dŵr, a materion diogelwch penodol i'r safle. Er bod y materion hyn yn bwysig, maent yn dod o fewn fframweithiau deddfwriaethol a rheoliadol eraill, nad effeithir arnynt gan y broses dynodi dyfroedd ymdrochi.

Mae tystiolaeth yr ymgynghoriad yn darparu digon o gefnogaeth bod Pont Droi Llandeilo yn denu nifer mawr o ymdrochwyr o fewn ystyr y Rheoliadau. Felly mae Gweinidogion Cymru wedi penderfynu dynodi'r safle yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2026.

Y Camau Nesaf

Bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) am y penderfyniad i ddynodi Pont Droi Llandeilo yn ddŵr ymdrochi ar gyfer tymor ymdrochi 2026, a byddant yn gofyn i CNC baratoi'r proffil dŵr ymdrochi gofynnol.

Bydd CNC hefyd yn sefydlu rhaglen fonitro ar gyfer y safle, a bydd gwaith samplu yn dechrau o fis Mai 2026.

Bydd y proffil dŵr ymdrochi yn disgrifio'r safle a'i ddalgylch cyfagos. Bydd yn nodi'r afonydd a'r nentydd sy'n bwydo i'r dŵr ymdrochi, yn amlinellu ffynonellau llygredd posibl a'r mesurau sydd ar waith i'w rheoli, ac yn darparu gwybodaeth am gydymffurfiaeth â safonau ansawdd dŵr ymdrochi. Bydd CNC yn cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys cwmnïau dŵr, y sector amaethyddol ac awdurdodau lleol, i nodi unrhyw broblemau o ran ansawdd dŵr a mynd i'r afael â nhw.

Yn ystod y tymor ymdrochi, rhaid i'r awdurdod lleol perthnasol sicrhau bod gwybodaeth fanwl am bob dŵr ymdrochi yn cael ei harddangos mewn lleoliad hygyrch ger y safle. Rhaid i hyn gynnwys canlyniadau monitro cyfredol ac unrhyw wybodaeth am iechyd y cyhoedd sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau.

Ni fydd dynodi dyfroedd ymdrochi yn diwygio, yn newid nac yn disodli unrhyw amddiffyniadau cyfreithiol, rhwymedigaethau na gofynion rheoleiddiol presennol. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddeddfwriaeth berthnasol ynghylch yr amgylchedd, cadwraeth a defnydd tir, gan sicrhau bod safonau, dyletswyddau a rhwymedigaethau cyfreithiol cyfredol yn parhau mewn grym llawn. Yn ogystal, bydd unrhyw gyfrifoldebau presennol unigolion, endidau a chyrff corfforaethol preifat a chyhoeddus, fel y'u sefydlwyd o dan y gyfraith berthnasol, yn parhau heb eu newid gan y dynodiad.

<u>Atodiad A - Rhestr o'r Sefydliadau a Ymatebodd:</u>

Nid yw'r rhestr hon o sefydliadau a ymatebodd yn hollgynhwysfawr ac mae'n cynnwys y rhai a ddewisodd ddatgan cysylltiad sefydliadol yn unig. Efallai bod rhai ymatebion wedi'u cyflwyno gan unigolion sy'n aelodau o'r sefydliadau hyn ac felly efallai nad ydynt yn cynrychioli safbwynt swyddogol y sefydliad. Mae'r rhestr hefyd yn eithrio ymatebwyr a ofynnodd am gyfrinachedd neu na wnaethant roi enw sefydliad.

- Surfers Against Sewage
- NFU Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Dŵr Cymru
- Nifer o ymatebion unigol